

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG
NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 26AIN O FAWRTH 2018 YN YSGOL
PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Geraint Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Elfed Williams, Hywel Davies, Iwan Jones, Stanley Williams, Jill Evans, Falmai Evans a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. YMDDISWYDDIAD.

Derbyniwyd ymddiswyddiad ysgrifenedig Iona Edwards-Jones fel aelod o'r Cyngor. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu llythyr o ddiolch i Iona am ei wasanaeth fel Cyngorydd dros y blynyddoedd diweddar. Mi fydd y Clerc yn nawr hysbysu'r sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Chwefror 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gefnogaeth ariannol y Cyngor gan y mudiadau canlynol:-

1. Eglwys Dyfnog Sant, Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.
2. Gymdeithas Maes-y-Plwm.
3. Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

B. Derbyniwyd ymateb Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion canlynol:-

1. Mae'r ffyrdd yn y gymuned wedi cael eu glanhau erbyn hyn.
2. Mae'r teiars ar ochr y ffordd wrth Brŷn Morfydd, Llanrhaeadr wedi eu symud erbyn hyn.
3. Ni does yna gwaith ei angen lle mae'r dŵr yn casglu wrth stad Gernant yn Llanrhaeadr.

C. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Craig Davies, Arbenigol Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cadarnhau gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru ddim yn berchen yr afan na unrhyw ochrau'r afon ar yr afon Pentre' Llanrhaeadr nid mae'r cyfrifoldeb o gynnal a chadw yn dŵad o dan Gyfoeth Naturiol Cymru. Cytunodd y Cyngorydd Bari Evans drafod y pwnc gyda'r Arbenigol Technegol.

D. Derbyniwyd pris am logi dau sgip gan CAD Recycling yn ystod hanner tymor Mai 2018, sef £346.00 cyn TAW yn Llanrhaeadr ac £386.00 cyn TAW ym Mhrion ac mi fydd gost o £115.00 y dunnell i gael ymadael o'r gwastraff. Penderfynwyd gofyn a oes yna gap ar nifer o dunelli o'r gwastraff mae'r cwmni yn codi tal.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Penderfynwyd gadael ar y bwrdd.

7. EISTEDDFOD YR URDD Sir DDINBYCH 2020.

Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Bari Evans ei fod mewn trafodaeth gyda Gwyrffai Jones, Swyddog Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 i sefydlu Pwyllgor lleol gymuned Llanrhaeadr.

8. CYLLID.

A. Datganiad Banc £14,978.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych â'n tair cyfarfod blaenorol y cyngor £50.00.
2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £405.90.
3. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £782.00.
4. PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £101.60.

9. CEISIADAU GAN FUDIADAU AM GEFNOGAETH ARIAN Y CYNGOR.

- A. Clwb-y-Pentan, Llanrhaeadr - £250.00.
- B. Capel Saron am dorri glaswellt - £200.00.
- C. Cylch Meithrin a Ti a Fi Prion - £500.00.
- D. Caban-y-Plwyf, Pant Pastynog - £250.00.
- E. Ystafell Gymunedol, Llanrhaeadr - £400.00.
- F. Cymdeithas Sioe Gwn Llanrhaeadr - £400.00.
- G. Ysgol Pant Pastynog, Prion - £700.00.
- H. Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr - £500.00.

10. CAIS CYNLLUNIO.

Cais 23/2018/0046 - Amrywio rhif cod rhif 2 a 5 amod caniatâd cynllunio 23/2016/0875 i ddiwygio'r cynllun a gymeradwywyd "Cynllun Rheoli a Llundiau Ecolegol" gyda fersiwn wedi'i ddiweddarau yn Goedwigaeth Clocaenog, Saron - dim gwrthwynebiad.

11. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd gwybodaeth fod Heddlu Gogledd Cymru, fel rhan o'r toriadau ariannol, fod y "School Beat Project" ar fin dod i ben yn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Chadarnhawyd fod y Clerc eisoes wedi gyrru e-bost i'r Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn glân ar bryderon o'r toriadau ac i ofyn am ail ystyried i beidio torri'r gwasanaeth "School Beat Project".
- B. Derbyniwyd hysbyseb oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych yn glân â nifer o ffyrdd ar gau yn Saron rhwng 16 Ebrill a 16 Hydref 2018.

12. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) DEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

- A. Cytunodd y Cyngorydd Philip Williams ysgrifennu'r "Polisi Iaith Gymraeg" Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.
- B. Cafwyd trafodaeth yn glân â'r prosiect o blannu coed "Plwm Dinbych" yn y gymuned.
- C. Cafwyd trafodaeth yn glân ar lefel gwastraff plastic yn y gymuned.
- D. Penderfynwyd y Clerc ysgrifennu at Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn glân ar ganlynol:-
 1. Priffordd heibio Tan-y-Waen, Prion eisiau ei thrwsio.
 2. Beth mae'r Cyngor Sir yn bwriadu gwneud gyda'r tir safle'r Cyngor Sir werth Bryn Glas yn Saron?
 3. Mae'r traffic fferm wynt yn mynd ar ffordd Peniel i Saron yn hytrach â'n trwy Brion i Saron.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 30ain o Ebrill 2018 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.